

Digimap for Schools

Mapio Troseddau

Alan Parkinson

Adnodd addysgu Daearyddiaeth
Cyfnod Allweddol 3



Dyma un o gyfres o adnoddau dysgu i'w defnyddio gyda Digimap for Schools. Cewch ragor o wybodaeth am y gwasanaeth hwn yn <http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Adnoddau Daeryddiaeth *Digimap for Schools*

Canllaw ar gyfer athrawon yw'r adnoddau hyn er mwyn rhoi gwybodaeth i'r dosbarth cyfan neu fyfyrwyr unigol yn uniongyrchol fel y bo'n briodol. Gallwch addasu'r llu o syniadau sydd ym mhob gweithgaredd fel eu bod yn gweddu eich dosbarth a'ch disgyblion. Mae rhai adnoddau'n cynnwys dalenni gwaith i'w rhoi i'r disgyblion yn uniongyrchol.

Teitl: Mapio troseddau

Lefel	Cyd-destun	Lleoliad
Cyfnod Allweddol 3	Mae troseddau yn bwnc sydd wedi cael ei ychwanegu at nifer o gynlluniau gwaith CA3 ac mae'n cynnig potensial da ar gyfer mapio.	Unrhyw le ym Mhrydain Fawr

Gwybodaeth a Sgiliau	
Cysylltiadau Cwricwlwm (Lloegr)	Dehongli amrywiaeth o ffynonellau o wybodaeth ddaeryddol, gan gynnwys GIS.
Cysylltiadau Cwricwlwm (Cymru)	Dod o hyd i leoedd ac amgylcheddau, ac esbonio'r patrwm gofodol o nodweddion. Cyfrifoldebau bod yn ddinesydd byd-eang.
Cwricwlwm Rhagoriaeth yr Alban	Canlyniadau Astudiaethau Cymdeithasol: Pobl, Lleoedd a'r Amgylchedd: 0.07a, 2.10a, 11.1a, 1.14a.

Gweithgaredd

Mae'r gweithgaredd hwn yn cyflwyno mapiau troseddau'r heddlu ac yna'n gofyn i ddisgyblion fapio'r 'drosedd' o daflu sbwriel yn eu hysgol. Gall ystyried elfen ofodol troseddau helpu i ddarparu ateb. Gallech ychwanegu 'troseddau' eraill neu eu defnyddio yn lle sbwriel.

Cyflwyniad

Dechreuwch trwy osod y sefyllfa trwy ddarganfod cyfradd troseddau cyffredinol eich ardal gan ddefnyddio'r wefan www.police.uk/.

Cliciwch ar y bar 'Your Neighbourhood' (Eich Cymdogaeth) a rhwch god post yr ysgol a chliciwch ar chwilio. Cliciwch ar y balw'n ac yna cliciwch ar 'Explore the crime map' (Archwilio'r map troseddau). Yn y gwymplen 'All Crime' (Pob trosedd), bydd yn dweud wrthyfych nifer y digwyddiadau sydd wedi'u cofnodi ar gyfer mathau gwahanol o droseddau. Os oes llawer o droseddau, efallai y byddwch eisiau dewis un math, fel ymddygiad gwrthgymdeithasol. Bydd y map yn dangos ble ddigwyddodd y troseddau hyn.

Chwiliwch eto ar gyfer dwy ardal arall yn eich ardal leol; un ardal lle byddech yn disgwyl i'r gyfradd droseddau fod yn isel, ac un ardal lle byddech yn disgwyl i'r gyfradd droseddau fod yn uchel.

Trafodwch y rhesymau posibl am y gwahaniaeth, gan ddefnyddio eich gwybodaeth eich hun am yr ardaloedd. Os yw'r myfyrwyr yn gweithio'n unigol, gofynnwch iddyn nhw lunio crynodeb ysgrifenedig, heb fod yn fwy na 100 gair. (Efallai y byddan nhw eisiau archwilio cod post eu cartref a rhannu eu canfyddiadau gyda'u rhieni fel gwaith cartref).

Dewiswch y tab 'Reported in...' (Adroddwyd yn...) i newid y mis ac asesu'r tuedd mewn troseddau lleol. A yw'n cynyddu neu'n lleihau dros amser?

A yw'r tueddiadau hyn yn amlwg wrth edrych ar y troseddau sy'n cael eu hadrodd yn y papur newydd lleol?

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Prif weithgaredd

Dylai'r myfyrwyr agor *Digimap for Schools* a dilyn y cyfarwyddiadau ar y daflen i greu map troseddau o'r ysgol.

Mynd gam ymhellach

- Dywedwch wrth y myfyrwyr mai cyllid i wneud tri gwelliant i safle'r ysgol yn unig sydd gennych. Pa rai dylech chi eu dewis, yn eu barn nhw, a ble dylech chi eu gosod nhw? Gofynnwch iddyn nhw greu map anodedig i gyfiawnhau'r penderfyniad hwn.
- Rhannwch y canlyniadau uchod gyda'r pennaeth/unigolyn sy'n gyfrifol am ddatrys y broblem. Gofynnwch iddyn nhw roi adborth i'r dosbarth am y syniadau hyn.
- Beth am ddychmygu agoriad llyfr trosedd cyffrous, wedi'i leoli yn yr ardal a ddangosir ar eich map. Ysgrifennwch dudalen gyntaf y llyfr.
- Lluniwch adroddiad ar gyfer swyddogion cymorth cymunedol lleol yr heddlu lleol, neu gwahoddwch un i ddod i'r ysgol i siarad am atal troseddau fel rhan o'ch ymchwiliad.

Dolenni ar y we

Gellir gweld data am droseddau sy'n gysylltiedig â lleoliadau ar: <http://www.police.uk>

Os ydych yn byw yn Llundain, mae ffynhonnell wybodaeth ychwanegol ar gael gan yr Heddlu Metropolitan: <http://maps.met.police.uk/>

Mae rhai'n awgrymu bod y ffordd y mae ystadau'n cael eu cynllunio yn gwneud troseddu'n waeth. Gallai'r adroddiadau hyn gael eu defnyddio gan uned sy'n archwilio ystadau tai ar *Digimap for Schools* i weld a oes rhai o'r diffygion o ran cynllun yn bresennol.

<https://www.designcouncil.org.uk/knowledge-resources/report/creating-safe-places-live-through-design>

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

© EDINA ym Mhrifysgol Caeredin 2013

Mae'r gwaith hwn o dan Drwydded Anfasnachol *Creative Commons Attribution*



D12237_uwchradd
f1.0 Mai 2014


EDINA

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Mapio Troseddau Ysgol

Rydych chi'n mynd i greu map i ddangos ble mae troseddau'n cael eu cyflawni yn eich ysgol. Gallwch ganolbwyntio ar sbwriel, ond gallech fapio 'troseddau' eraill hefyd.

- 1 Agorwch *Digimap for Schools* a dewch o hyd i'ch ysgol. Closiwch i lefel manylder *OS MasterMap*. Dewiswch dryloywder o 100% a defnyddiwch yr offeryn byffer i dynnu llun ardal o gwmpas eich ysgol. Gall pellter o 0.1 km neu 0.15 km fod yn addas a gallwch ddefnyddio cylch neu greu byffer o amgylch llinell. Defnyddiwch yr offeryn addasu  i symud eich parth byffer cyfan er mwyn ei roi ble bynnag rydych chi eisiau iddo fod.



- 2 Gan ddefnyddio eich gwybodaeth eich hun am yr ysgol a'r strydoedd cyfagos, ychwanegwch symbolau at eich map i ddangos ble rydych chi'n gwybod bod myfyrwyr yn dueddol o daflu eu sbwriel.
- 3 Wrth ymdrin â throseddau go iawn, mae'r heddlu'n rhoi cyngor i breswylwyr am sut y gallan nhw leihau'r siawns o drosedd yn cael ei chyflawni. Y term cyffredinol a ddefnyddir pan mae pobl yn ceisio lleihau'r siawns o'u heiddo'n cael ei effeithio gan droseddau yw '**target hardening**' (caledu targed).



Delwedd: Alan Parkinson

Mae enghreifftiau o 'galedu targed' yn cynnwys:

- Gosod larwm (neu larwm 'ffug')
- Teledu Cylch Cyfyng
- Cynlluniau Gwarchod Cymdogaeth
- Golau da

Penderfynwch beth ellid ei wneud i leihau'r siawns bod sbwriel yn cael ei daflu, neu broblemau eraill sy'n digwydd yn y lleoedd a ddangosir ar eich map. Rhowch sylwadau i ddangos beth ellid ei wneud, yn eich barn chi.

